

ATGOFION HUGH HUGHES

allan o *Yr Hynafion Cymreig*, Caerfyrddin 1823

Defod arall, yr hon sydd yn awr wedi ei gosod heibio mewn llawer o fannau, yw Plygain, neu wasanaeth yn yr eglwys, tua thri o'r gloch borau dydd Nadolig; pryd y mae yr holl blwyfogion yn ymgynnull yn yr eglwys, ac ar ôl y gweddïau a'r bregeth, yn parhau i ganu psalmau a hymnau hyd y dydd; a phe byddai rhai yn methu myned yno, trwy oed neu afiechyd, nid oeddynt byth yn esgeuluso cadw gweddïau gartref, a charolau ar enedigaeth ein Hiachawdwr.

Y mae carol Nadolig hyd yr amser hwn yn cael ei hystyried yn rhan o wasanaeth angenrheidiol y dydd, ac y mae un newydd, fynychaf, yn cael ei chyfansoddi bob blwyddyn gan ryw brydydd o'r gymdogaeth, ac yn cael ei chanu yn yr eglwys ar ôl y gwasanaeth. Testun a gymerir o'r Ysgrythur, ac y mae amryw ohonynt yn llawn o ddawn prydyddawl godidog, yn enwedig y rhai hynny o waith y diweddar Huw Morris (Eos Ceiriog); yr hwn, yn berchennog ar dalentau mawrion, a'u defnyddiodd hwynt er lles crefydd a chynnydd duwioldeb.